| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Pensiwn** |
| **Dyddiad:** | **20/07/2023** |
| **Teitl:** | **Y Rhaglen Waith Diwygiedig** |
| **Pwrpas:** | **Llunio’r Rhaglen Waith am y flwyddyn 2023/24** |
| **Awdur:** | **Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau** |

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn gosod y rhaglen waith olaf ym mis Ebrill 2022 mae angen nawr awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar gyfer y cynllun gwaith 2023/2024.

## 2. Rhaglen Waith drafft

Mae'r rhaglen waith isod wedi'i ddrafftio ac mae'n cynnwys y materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi.

**RHAGLEN WAITH 2023/24**

**16 Hydref 2023**

- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i’r gofrestr risg (os yn berthnasol).

**Rhagfyr 2023**

- Diweddariad cyffredinol ar Weinyddu Pensiynau.
- Dangosfwrdd Pensiwn.
- Diweddariad ar Brosiect McCloud.
- Diweddariad perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd.
- Cyfrifon Terfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

**Gwanwyn 2024**

- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Cyllideb 2024/25.
- Cynllun Busnes 2024/25.
- Cynllun Hyfforddi 2024/25.
- Rhaglen waith ar gyfer 2024/25.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

Gellir ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen fel bo'r angen e.e. adroddiadau archwilio mewnol neu newidiadau i rheoliadau. Diau y bydd syniadau gan aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd ystyried y rhaglen uchod ac awgrymu eitemau ychwanegol neu newidiadau.